## Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent

# Adroddiad Sero Net 24/25



## Cynllun Datgarboneiddio 2020 i 2030

Cyngor Bwrdeistref Sirol
Blaenau Gwent
County Borough Council

Adroddiad Sero Net Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent 2022/23

Os oes gennych unrhyw ymholiadau neu gwestiynau mewn perthynas â'r adroddiad hwn, cysylltwch â Thîm Polisi a Phartneriaethau CBSBG yn y cyfeiriad e-bost isod:

E-bost: pps@blaenau-gwent.gov.uk

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg

This document is available in English.

**Cynnwys**


| | |
|---|---|
| **1 Ein Dull** | 4 |
| **2 Crynodeb o Weithgarwch** | 5 |
| **3 Sero Net Sefydliadol 2030** | 5 |
| **4 Ein Hôl Troed Carbon** | 8 |
| **5 Sero Net Tiriogaethol 2050** | 15 |
| **6 Addasu i Effeithiau Newid Hinsawdd** | 27 |
| **7 Sylwadau i Gloi** | 28 |

# 1. Ein Dull

Mae ein dull yn seiliedig ar ddau darged Sero Net Llywodraeth Cymru: Sero Net 2030 ar gyfer Sector Cyhoeddus Cymru (allyriadau sefydliadol) a Sero Net 2050 ar gyfer Cymru gyfan (allyriadau tiriogaethol). Ein hallyriadau sefydliadol yw'r allyriadau carbon sy'n cael eu cynhyrchu trwy ddarparu ein gwasanaethau, tra bo allyriadau tiriogaethol Blaenau Gwent yn cynnwys yr holl allyriadau carbon sy'n cael eu rhyddhau yn y fwrdeistref, o gartrefi, trafnidiaeth, busnesau ac ati. Rydym wedi gwahanu'n glir rhwng y ddau nod Sero Net hyn oherwydd bod y ddau fath o allyriadau yn aml yn galw am wahanol fathau o gamau gweithredu, ac oherwydd bod gennym fwy o reolaeth uniongyrchol dros ein hallyriadau sefydliadol. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg o'n hôl troed carbon sefydliadol ar gyfer 2022/23 a chrynodeb o'r camau yr ydym yn eu cymryd tuag at ein huchelgeisiau Sero Net 2030 a Sero Net 2050.

# 2. Crynodeb o Weithgarwch

Mae ein taith tuag at ein targedau Sero Net yn cael ei goruchwylio gan ein Grŵp Hinsawdd, y mae ei aelodaeth graidd yn cynnwys aelodau etholedig gan gynnwys Aelodau Cabinet, y Cadeirydd Craffu perthnasol a'r Pencampwr Hinsawdd, aelodau o'n huwch dîm arweinyddiaeth a chynrychiolydd undeb llafur. Mae'r grŵp yn cyfarfod bob chwe wythnos gyda ffocws bob yn ail ar Sero Net 2030 mewn un cyfarfod a Sero Net 2050 yn y nesaf.

Mae ein hadroddiad Sero Net eleni yn fyrrach na'r blynyddoedd blaenorol oherwydd byddwn yn cynnal Adolygiad Pwynt Canol o'n Cynllun Datgarboneiddio eleni. Bydd yr adolygiad yn cael ei rannu'n ddau gam. Mae'r cam cyntaf yn seiliedig ar ddata a bydd ganddo ddwy brif elfen yn dadansoddi'n fanwl: (i) ein cynnydd hyd yma a (ii) yr hyn sydd angen ei wneud o hyd i gyrraedd **Sero Net 2030**, h.y. dadansoddi ein ffynonellau allyriadau carbon mwyaf sy'n weddill. Mae'r ail gam yn edrych i'r dyfodol a bydd yn datblygu amcanestyniadau mwy manwl o ostyngiadau, costau ac amserlenni carbon gyda'r nod o ddeall yn well ein llwybr llawn i Sero Net a darparu amcangyfrif realistig o faint o gynnydd y byddwn yn gallu ei wneud erbyn 2030 o ystyried yr adnoddau sydd ar gael.

Mae'r adroddiad blynyddol eleni yn cynnwys holl fanylion ein hôl troed carbon ar gyfer Sero Net 2030 fel yn y blynyddoedd blaenorol ac eleni hefyd yn cynnwys dadansoddiadau o ôl troed carbon yn ôl adeiladu am y tro cyntaf. Fodd bynnag, nid yw'r manylion naratif arferol am ein cynnydd ar draws ein wyth trawsnewidiad Sero Net 2030, gan gynnwys ein pum gweithred allweddol, wedi'u cynnwys. Bydd y rhain yn cael eu trafod yn fanylach fel rhan o'n Hadolygiad Pwynt Canol Cynllun Datgarboneiddio, a fydd ar gael i'r cyhoedd maes o law.

Ym mis Ionawr a Chwefror 2025, cynhaliwyd Fforwm Dinasyddion Blaenau Gwent ar Ddyfodol Teithio, gyda chyllid drwy Brosiect Fast Followers Innovate UK. Adeiladodd y fforwm ar waith Cynulliad Hinsawdd 2021, a nododd drafnidiaeth fel un o bedair thema allweddol ein Fframwaith **Sero Net 2050**. Daeth y Fforwm Dinasyddion â 19 o drigolion Blaenau Gwent a ddewiswyd ar hap ac a oedd yn gynrychioliadol o'r fwrdeistref ynghyd i drafod y cwestiwn 'Sut gall Blaenau Gwent ddod at ei gilydd i wneud teithio lleol yn decach, yn wyrddach ac yn well i bawb?' Cynhyrchodd y fforwm ddeg argymhelliad ar gyfer yr hyn y gallai'r cyngor a'i bartneriaid ei wneud yn realistig dros y pum mlynedd nesaf i wella teithio yn y fwrdeistref, yn ogystal â set o egwyddorion tegwch i lywio sut y dylid gweithredu'r argymhellion hyn. Mae'r argymhellion hyn wedi'u cyflwyno gan aelodau'r fforwm i aelodau etholedig y cyngor a Phartneriaeth Llesiant Leol Blaenau Gwent. Byddwn yn cyhoeddi ein hymateb llawn i'r argymhellion hyn ym mis Ionawr 2026.

# 3. Sero net sefydliadol 2030

Mabwysiadwyd ein Cynllun Datgarboneiddio ym mis Medi 2020 yr un pryd ag y gwnaethom ddatgan ei bod hi'n Argyfwng ar yr Hinsawdd. Mae'r cynllun yn mynd i'r afael â'n hallyriadau sefydliadol gyda'r nod o wneud ein cyfraniad llawn at yr uchelgais i gyflawni Sector Cyhoeddus Sero Net yng Nghymru erbyn 2030.

Rydym wedi mabwysiadu dull sy'n ymateb i ddata, yn seiliedig ar adnabod o'n hôl troed carbon, wyth trawsnewidiad y mae'n rhaid i ni eu cyflawni i gyrraedd Sero Net. Mae pob un o'r trawsnewidiadau hyn yn cynrychioli maes gweithredu cydlynol gyda'i dechnolegau carbon isel, modelau busnes a seilwaith arbennig ei hun. Mae gan bob un o'r trawsnewidiadau hyn ei gamau gweithredu manwl ei hun i'w gyflawni. Mae ein dull yn seiliedig ar brif ffrydio ddatgarboneiddio yn ein gweithrediadau, yn hytrach na sefydlu prosiectau a chyllidebau datgarboneiddio ar wahân. Ceir grŵp hinsawdd traws-sefydliadol sy'n darparu trosolwg corfforaethol. Trosolwg o'n Trawsnewidiadau:

1. **Trafnidiaeth.** Mae teithio gan ein staff mewn cerbydau corfforaethol neu yn eu cerbydau eu hunain yn cynnwys fflyd, cymudo a theithio gan staff yn y gwaith.
2. **Datrysiadau sy'n seiliedig ar natur.** Amsugno carbon ar dir yr ydym yn berchen arno ac yn ei reoli, sy'n gysylltiedig i raddau helaeth â choetir, coed trefol a mawndir.
3. **Caffael: Nwyddau.** Sy'n cwmpasu'r hyn yr ydym yn ei brynu fel sefydliad ac yn cynnwys eitemau allweddol fel dillad, bwyd, TG, peiriannau, offer a dodrefn.
4. **Caffael: Gwasanaethau.** Sy'n cwmpasu'r gwasanaethau yr ydym yn eu caffael i gyflawni ein swyddogaethau fel ysgolion a gwasanaethau cymdeithasol. Mae hyn hefyd yn cynnwys buddsoddiadau fel cynlluniau pensiwn.
5. **Caffael: Gwaith.** Sy'n cwmpasu'r holl waith i adeiladu a chynnal a chadw ein hadeiladau a'n seilwaith.
6. **Trydan.** Mae'n cwmpasu'r trydan yr ydym yn ei brynu i redeg ein holl wasanaethau. Mae'n cynnwys pethau allweddol fel goleuadau stryd, rhedeg ein hadeiladau corfforaethol a'n hysgolion. Mae hefyd yn cynnwys ein defnydd o dechnolegau adnewyddadwy.
7. **Gwres.** Mae'n cynnwys gwresogi (ac oeri) ein hadeiladau
8. **Gwastraff.** Mae'n cwmpasu effeithiau carbon ein prosesau i drin gwastraff trefol, boed yn ailgylchu, tirlenwi neu droi gwastraff yn drydan.

# **Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent:** Crynodeb o'r Trawsnewidiadau 2019/20

## 1 Trafnidiaeth Uniongychol

$tCO_2e$ **5,574** — **10%**

| | |
|---|---|
| Cymudo Cyflogeion | 2,181 |
| Gwariant Cerbydau | 1,846 |
| Diesel Fflyd | 1.189 |
| Teithio Busnes Cyflogeion | 334 |



## 4 Caffael: Gwasanaethau

$tCO_2e$ **28,640** — **53%**

| | |
|---|---|
| Gofal Cymdeithasol ac Iechyd | 9,646 |
| Addysg | 9,466 |
| Pensiynau / Buddsoddiadau | 3,837 |



## 7 Gwres

$tCO_2e$ **5,757** — **11%**

| | |
|---|---|
| Y Ganolfan Ynni | 1,522 |
| Ysgol Gyfun Abertyleri | 279 |
| Dysgu Ebbw Fawr | 194 |
| Ysgol Gyfun Tredegar | 180 |
| Cwrt Mytton | 176 |




## 2 Datrysiadau'n seiliedig ar Natur

$tCO_2e$ **-1,486** — **-3%**

| | |
|---|---|
| Coed | -2,350 |
| Glaswelltir | -55 |
| Amgylchedd Adeiledig | 919 |



## 5 Caffael: Gweithiau

$tCO_2e$ **5,521** — **10%**

| | |
|---|---|
| Adeiladu a Chynnal a Chadw | 5,521 |



## 8 Gwastraff

$tCO_2e$ **-8,216** — **-15%**

| | |
|---|---|
| Ailgylchu / Compostiwyd | -11,828 |
| Gwastraff i Ynni | 3,611 |
| Tirlenwi | 0.4 |



## 3 Caffael: Nwyddau

$tCO_2e$ **5,567** — **10%**

| | |
|---|---|
| TG ac Offer Swyddfa | 1,883 |
| Cyfarpar a Dodrefn | 1,327 |
| Bwyd a Diod | 1,318 |



## 6 Trydan


$tCO_2e$ **4,119** — **8%**

| | |
|---|---|
| Goleuadau Stryd | 1,104 |
| Dysgu Ebbw Fawr | 359 |
| Canolfan Ddinesig | 113 |
| Parc Carafannau Cwm Cracen | 98 |



# 4. Ein Hôl Troed Carbon

Mae ein hôl troed carbon wedi'i rannu'n dri chwmpas (gweler y diagram isod). Mae ein hôl troed yn cynnwys yr holl allyriadau o asedau, fel adeiladau a cherbydau, y mae gennym reolaeth weithredol arnynt o ddydd i ddydd, pa un a ydym yn berchen arnynt ynteu'n eu prydlesu (allyriadau Cwmpas 1 a 2) ac allyriadau sy'n deillio o'n gweithgarwch caffael ac o ddarparu gwasanaethau ar ein rhan gan sefydliadau eraill (allyriadau Cwmpas 3). Fe wnaethom gyfrifo ein hôl troed carbon sylfaenol ar gyfer 2019/20.




Mae'r dull sylfaenol ar gyfer cyfrifo ein hallyriadau carbon yn weddol syml. Allyriadau carbon yw faint o weithgaredd rydym yn ei gyflawni (e.e. litrau o ddiesel a ddefnyddir gan ein fflyd neu'r swm a gaiff ei wario ar brosiectau adeiladu) wedi'i luosi gan ddwyster carbon cyfartalog uned o'r gweithgaredd hwnnw a gyfrifwyd yn genedlaethol (e.e. yr allyriadau carbon o litr o ddiesel neu bunt o wariant ar brosiectau adeiladu):

dwyster carbon gweithgaredd x faint o'r gweithgaredd = cyfanswm yr allyriadau
(e.e. $CO_2$ y litr x litr x litrau o danwydd a ddefnyddiwyd = allyriadau)

Gellir rhannu ein hallyriadau ôl troed carbon yn ddau fath, sy'n amrywio'n sylweddol o ran lefel y rheolaeth sydd gennym ar leihau carbon a hefyd sut y gellir eu monitro. Mae'r math cyntaf, ***allyriadau uniongyrchol***, naill ai'n cael eu rhyddhau'n uniongyrchol trwy ein gweithrediadau (e.e. tanwydd a losgir yn ein fflyd) neu drwy ein defnydd o drydan (e.e.

goleuadau stryd), ac mae'r allyriadau hyn yn cyfateb i raddau helaeth i gwmpasau 1 a 2. Oherwydd y berthynas uniongyrchol rhwng ein gweithgareddau a rhyddhau carbon, mae gennym lefelau cymharol uchel o reolaeth ar gyrraedd Sero Net ar gyfer yr allyriadau hyn ac felly gallwn fesur ein cynnydd yn uniongyrchol o ran allyriadau carbon.

Mae'r ail fath, ***allyriadau sy'n seiliedig ar wariant***, yn gysylltiedig â'n gweithgarwch i gaffael cynhyrchion a gwasanaethau. Mae'r rhain yn cynnwys y rhan fwyaf o allyriadau cwmpas 3, ac mae gennym lai o reolaeth uniongyrchol dros yr allyriadau hyn.  Gall cyfrifiadau allyriadau sy'n seiliedig ar wariant roi amcangyfrif rhesymol o faint cyfraniad y gweithgareddau hyn i'n hôl troed carbon ar y cyfan.   Fodd bynnag, oherwydd eu bod yn cael eu cyfrifo yn seiliedig ar ein gwariant ariannol a ffactorau dwyster carbon cyfartalog cenedlaethol, ni allant ganfod newidiadau yn ein perfformiad yn gywir o un flwyddyn i'r llall, felly nid ydynt yn addas ar gyfer monitro ein perfformiad dros amser.  O ganlyniad, ni fyddwn yn diweddaru ein ffigyrau allyriadau sy'n seiliedig ar wariant yn flynyddol.

Mae gan ddau o'n trawsnewidiadau ffigyrau allyriadau carbon negatif.  Mae'r trawsnewidiad datrysiadau sy'n seiliedig ar natur yn ymwneud ag effaith carbon y tir yr ydym yn berchen arno.  Mae'r ffigwr hwn yn seiliedig ar y newid blynyddol net yn y carbon sy'n cael ei storio a'i ryddhau o'r tir yr ydym yn berchen arno a/neu'n ei reoli.  Mae'r ffigyrau hyn sy'n seiliedig ar dir yn ***allyriadau net negatif*** cywir sy'n cynrychioli tynnu carbon o'r atmosffer.

Mae'r ffigwr negatif ar gyfer y trawsnewidiad gwastraff yn cynrychioli ***allyriadau wedi'u hosgoi***, sef faint o allyriadau carbon sy'n cael eu hosgoi am bod eraill yn cynhyrchu cynhyrchion gan ddefnyddio gwastraff wedi'i ailgylchu yn hytrach na deunyddiau newydd. Fodd bynnag, nid yw ein hôl troed ond yn cynnwys yr allyriadau o'r broses ailgylchu.  Am y rheswm hwn, nid yw'r allyriadau a osgowyd o wastraff trefol yn rhan o'n hôl troed carbon.

Rydym hefyd wedi adrodd ar faint o drydan adnewyddadwy yr ydym wedi'i gynhyrchu; nid yw'r ffigurau hyn yn rhan o'n hôl troed carbon yn uniongyrchol.  Mae'r arbedion carbon o'r trydan yr ydym yn ei ddefnyddio ein hunain eisoes yn cael eu cynnwys yn ein hôl troed trwy'r swm is o drydan grid y mae angen i ni ei ddefnyddio, tra bo'r trydan yr ydym yn ei allforio i'r grid yn cyfrannu at ostwng dwyster carbon y grid cenedlaethol yn ei gyfanrwydd.

**Ôl Troed Carbon 2024/25**

| (tunelli o $CO^2e$) | | | |
|---|---|---|---|
| **Cwmpas 1 - Allyriadau Uniongyrchol** | **2024/25** | **2023/24** | **2022/23** |
| Gwresogi Nwy Naturiol | 2,918 | 3,335 | 3,512 |
| *Gwresogi Nwy Naturiol Hamdden Aneurin* | 927 | 953 | 967 |
| Gwresogi Biomas | 54 | 44 | 46 |
| Fflyd Diesel | 848 | 654 | 782 |
| Fflyd Petrol | 9 | 10 | 10 |
| Fflyd Olew Nwy | 0 | 23 | 28 |
| **Cyfanswm Cwmpas 1** | **4,756** | **5,019** | **5,345** |
| | | | |
| **Cwmpas 2 - Allyriadau Anuniongyrchol Trydan** | | | |
| Mesuredig - Adeiladau | 1,264 | 1,202 | 1,171 |
| *Mesuredig - Adeiladau Hamdden Aneurin* | *317* | *353* | *343* |
| Anfesuredig – Goleuadau Stryd | 639 | 688 | 642 |
| Mesuredig - Cerbyd Fflyd Trydan | 4 | 2 | 0.2 |
| **Cyfanswm Cwmpas 2** | **2,221** | **2,243** | **2,156** |
| | | | |
| **Cwmpas 3 - Allyriadau Anuniongyrchol Eraill** | | | |
| Echdynnu, Cynhyrchu a Chludo Tanwydd ac Ynni a Ddefnyddiwyd | 50,292 | 39,701 | 33,548 |
| *Echdynnu, Cynhyrchu a Chludo Tanwydd ac Ynni a Ddefnyddiwyd Hamdden Aneurin* | 1,460 | 1,510 | 1,620 |
| Dŵr | *251* | *284* | *294* |
| *Dŵr Hamdden Aneurin* | 22 | 29 | 36 |
| Teithio Busnes | 12 | 11 | *13* |
| *Teithio Busnes Hamdden Aneurin* | 276 | 271 | 281 |
| Cymudo gan Staff | 10 | 9 | *8* |
| Defnydd Ynni Gweithio Gartref | 2,075 | 2,083 | 2,067 |
| Gwastraff Sefydliadol a Thrafnidiaeth Ymhellach i Lawr y Gadwyn Gyflenwi | 296 | 297 | 327 |
| Echdynnu, Cynhyrchu a Chludo Tanwydd ac Ynni a Ddefnyddiwyd | 3 | 186 | 205 |
| **Cyfanswm Cwmpas 3** | **54,697** | **44,389** | **38,400** |
| | | | |
| **Atafaelu** | | | |
| Tir coedwig | -2,350 | -2,350 | -2,350 |
| Glaswelltir | -55 | -55 | -55 |
| Aneddiadau | 919 | 919 | 919 |
| **Cyfanswm Atafaelu** | **-1,486** | **-1,486** | **-1,486** |
| | | | |
| **Cyfanswm Ôl-troed Carbon** | **60,188** | **50,164** | **44,415** |

| | tunelli o $CO^2e$ | | |
|---|---|---|---|
| **Cwmpas 1 - Allyriadau Uniongyrchol** | **2021/22** | **2020/21** | **2019/20** |
| Gwresogi Nwy Naturiol | 3,483 | 3,725 | 3,942 |
| *Gwresogi Nwy Naturiol Hamdden Aneurin* | 1,076 | 798 | 1,152 |
| Gwresogi Biomas | 75 | 67 | 60 |
| Fflyd Diesel | 933 | 905 | 911 |
| Fflyd Petrol | 10 | 9 | 18 |
| Fflyd Olew Nwy | 32 | 31 | 35 |
| **Cyfanswm Cwmpas 1** | **5,609** | **5,535** | **6,118** |
| | | | |
| **Cwmpas 2 - Allyriadau Anuniongyrchol Trydan** | | | |
| Mesuredig - Adeiladau | 1,265 | 1,272 | 1,792 |
| *Mesuredig - Adeiladau Hamdden Aneurin* | *374* | *279* | *572* |
| Anfesuredig – Goleuadau Stryd | 700 | 870 | 968 |
| Mesuredig - Cerbyd Fflyd Trydan | | | |
| **Cyfanswm Cwmpas 2** | **2,339** | **2,421** | **3,332** |
| | | | |
| **Cwmpas 3 - Allyriadau Anuniongyrchol Eraill** | | | |
| Echdynnu, Cynhyrchu a Chludo Tanwydd ac Ynni a Ddefnyddiwyd | 21,753 | 22,723 | 23,069 |
| *Echdynnu, Cynhyrchu a Chludo Tanwydd ac Ynni a Ddefnyddiwyd Hamdden Aneurin* | 1,548 | 1,727 | 2,104 |
| Dŵr | *323* | *170* | *288* |
| *Dŵr Hamdden Aneurin* | 32 | 62 | 68 |
| Teithio Busnes | 9 | *17* | *33* |
| *Teithio Busnes Hamdden Aneurin* | 198 | 118 | 278 |
| Cymudo gan Staff | *4* | *2* | *11* |
| Defnydd Ynni Gweithio Gartref | 2,074 | 1,557 | 2,335 |
| Gwastraff Sefydliadol a Thrafnidiaeth Ymhellach i Lawr y Gadwyn Gyflenwi | 352 | | |
| Echdynnu, Cynhyrchu a Chludo Tanwydd ac Ynni a Ddefnyddiwyd | 612 | 209 | 216 |
| **Cyfanswm Cwmpas 3** | **26,905** | **26,585** | **28,402** |
| | | | |
| **Atafaelu** | | | |
| Tir coedwig | -2,350 | -2,350 | -2,350 |
| Glaswelltir | -55 | -55 | -55 |
| Aneddiadau | 919 | 919 | 919 |
| **Cyfanswm Atafaelu** | **-1,486** | **-1,486** | **-1,486** |
| | | | |
| **Cyfanswm Ôl-troed Carbon** | **33,367** | **33,055** | **36,366** |

Yn dynodi ffigyrau nad ydynt yn addas ar gyfer monitro cynnydd blynyddol

Yn dynodi ffigyrau na ellir eu cymharu'n uniongyrchol oherwydd newid mewn methodoleg

Yn dynodi data newydd

Yn dynodi bod data blynyddoedd blaenorol wedi'i ddiwygio oherwydd newidiadau sylweddol mewn ffigyrau allyriadau

Yn dynodi ffigyrau sy'n llai cywir gan nad oedd cerbydau fflyd yn gallu cael eu hail-lenwi â thanwydd yn y Depo am y rhan fwyaf o'r flwyddyn

Yn dynodi bod allyriadau yn rhan o'n hallyriadau nad ydynt yn seiliedig ar wariant (gweler isod am fanylion)

Yn dynodi methodoleg ddiwygiedig i ddileu cyfrif dwbl

**Tueddiadau Ôl Troed Carbon**

Mae ffigurau allyriadau caffael ar gyfer nwyddau a gwasanaethau a brynir wedi cynyddu'n sylweddol iawn. Yn y cyd-destun hwn mae'n werth nodi eto nad yw allyriadau caffael seiliedig ar wariant yn addas ar gyfer olrhain newidiadau mewn perfformiad o flwyddyn i flwyddyn. Mae'r cynnydd net eleni i'w esbonio'n llwyr gan gynnydd mawr iawn o dros 80% yn y ffactorau allyriadau ar gyfer gwariant addysg a gofal cymdeithasol annomestig, dau o'n tri chategori mwyaf o wariant. Wrth edrych ar wariant caffael ar nwyddau yn hytrach na gwasanaethau, cafodd diwedd y gwariant ar linell reilffordd Glynebwy, a gynyddodd ein hallyriadau seiliedig ar wariant yn sylweddol dros y ddwy flynedd ddiwethaf, ei wrthbwyso i raddau helaeth gan wariant ar nifer o brosiectau adeiladu sylweddol (ac offer TG cysylltiedig) gan gynnwys yr HiVE, dau brosiect adeiladu ysgolion mawr a thri phrosiect ReFit gwerth £1m a mwy.

Dangosir newidiadau yn ein hallyriadau carbon nad ydynt yn seiliedig ar wariant sydd yn cofnodi newidiadau blynyddol mewn perfformiad (amlygir y categorïau hyn mewn gwyrdd yn y tabl ôl troed carbon ar y dudalen flaenorol ac eithrio'r amrywiadau o ffigurau caffael) yn y tabl isod. Yn gyffredinol, bu gostyngiad o 5% yn ein hallyriadau carbon nad ydynt yn seiliedig ar wariant a gostyngiad cronnol o 23% dros y pum mlynedd ers ein llinell sylfaen 2019/20 (gweler y tabl isod). Prif achos ein gostyngiad eleni yw gostyngiad o 10% yn y nwy a ddefnyddir, sy'n cyfrif am 443 tunnell o $CO_2e$ o gyfanswm gostyngiad net o 568 tunnell o $CO_2e$. Roedd y darlun ar gyfer defnydd trydan yn llawer mwy cymysg. Ar y cyfan, roedd wedi gostwng 1%, ond roedd hyn yn cynnwys dwy ffynhonnell newydd sylweddol o ddefnydd trydan, yr HiVE (a fydd yn rhan o ôl troed Coleg Gwent yn y dyfodol) a Dŷ Beechwood, Dyffryn Distaw (nad oedd yn rhan o'n hôl troed o'r blaen). Ar y llaw arall, gadawodd eiddo eraill fel Anvil Court a Eugene Cross Park ein hôl troed ac fe wnaethom nodi set o unedau diwydiannol na ddylai fod wedi'u cynnwys yn ein hôl troed o'r blaen. Yn olaf, cafodd ein hallyriadau gwastraff eu dileu i raddau helaeth wedi i Lywodraeth Cymru ddyfarnu bod y rhan fwyaf o'r rhain yn gyfrifiad dwbl gyda'n hadroddiadau ar allyriadau tanwydd ein fflyd wastraff.

**Cyfanswm Allyriadau nad ydynt yn Seiliedig ar Wariant**

| tunnell $CO_2e$ y flwyddyn | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 | 2024/25 | Newid o'r Flwyddyn Sylfaen | Newid o'r Llynedd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Allyriadau nad ydynt yn Seiliedig ar Wariant | 14,783 | 11,818 | 13,100 | 12,353 | 11,949 | 11,381 | -23% | -5% |

## Allyriadau Trydan

| | tunnell $CO_2$e y flwyddyn | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **19/20** | **20/21** | **21/22** | **22/23** | **23/24** | **24/25** | **Newid o'r Llynedd** | **Newid o'r Flwyddyn Sylfaen** |
| Mesuredig - Adeiladau | 1,792 | 1,272 | 1,265 | 1,171 | 1,202 | 1,264 | 5% | -29% |
| *Mesuredig - Adeiladau Aneurin Leisure* | *572* | *279* | *374* | *343* | *353* | 317 | -10% | -45% |
| Anfesuredig - Goleuadau Stryd | 968 | 870 | 700 | 642 | 688 | 639 | -7% | -34% |
| Mesuredig - Cerbyd Fflyd Trydan | | | | 0.2 | 2 | 4 | 115% | |
| **Cyfanswm Trydan** | **3,332** | **2,420** | **2,339** | **2,156** | **2,243** | **2,225** | **-1%** | **-33%** |

## Allyriadau Gwresogi

| | tunnell $CO_2$e y flwyddyn | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **19/20** | **20/21** | **21/22** | **22/23** | **23/24** | **24/25** | **Newid o'r Llynedd** | **Newid o'r Flwyddyn Sylfaen** |
| Gwresogi Nwy Naturiol | 3,942 | 3,725 | 3,483 | 3,512 | 3,335 | 2,918 | -13% | -26% |
| *Gwresogi Nwy Naturiol Aneurin Leisure* | *1,152* | *798* | *1,076* | 967 | 953 | 927 | -3% | -20% |
| Gwresogi Biomas | 60 | 67 | 75 | 46 | 44 | 54 | 23% | -10% |
| **Cyfanswm Gwres** | **5,154** | **4,590** | **4,634** | **4,554** | **4,332** | **3,898** | **-10%** | **-24%** |

## Allyriadau Trafnidiaeth

| | | | tunnell $CO_2$e y flwyddyn | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **19/20** | **20/21** | **21/22** | **22/23** | **23/24** | **24/25** | **Newid o'r Llynedd** | **Newid o'r Flwyddyn Sylfaen** |
| Fflyd Diesel | 911 | 905 | 933 | 782 | 654 | 848 | 30% | -7% |
| Fflyd Petrol | 18 | 9 | 10 | 10 | 10 | 9 | -8% | -49% |
| Fflyd Olew Diesel | 35 | 31 | 32 | 28 | 23 | 0 | -100% | -100% |
| Teithio Busnes | 278 | 118 | 198 | 281 | 271 | 276 | 2% | -1% |
| *Teithio Busnes Aneurin Leisure* | *11* | 2 | *4* | *4* | 9 | 10 | 8% | -11% |
| Staff yn Cymudo | 2,335 | 1,557 | 2,074 | 2,067 | 2,083 | 2,075 | 0% | -11% |
| **Cyfanswm Trafnidiaeth** | **3,588** | **2,622** | **3,251** | **3,172** | **3,050** | **3,218** | **6%** | **-10%** |


# 5. Sero net tiriogaethol 2050

**Allyriadau Tiriogaethol Blaenau Gwent**

Dyma'n blwyddyn gyntaf yn dadansoddi allyriadau tiriogaethol Blaenau Gwent yn fanwl ar draws pob sector.  Byddwn yn parhau i adrodd ar y ffigurau hyn yn flynyddol mewn adroddiadau yn y dyfodol.


***Mae allyriadau'n gostwng ond nid yn unol â'r targed***

Mae allyriadau carbon tiriogaethol Blaenau Gwent wedi bod yn gostwng yn gyson, gan ostwng 40% rhwng 2005 a'r ffigurau diweddaraf yn 2022. Mae'r cwymp hwn yn adlewyrchu'r duedd genedlaethol ac wedi cael ei yrru gan ddau brif ffactor; datgarboneiddio'r grid trydan a gwelliannau parhaus eang mewn effeithlonrwydd ynni.




Fodd bynnag, ni fydd y ddau ffactor hyn yn ddigon ar eu pennau eu hunain i gyrraedd Sero Net.  Mae amcanestyniadau gan Ganolfan Tyndall (isod) yn dangos y bydd parhau â'r tueddiadau presennol hyn yn sylweddol brin o Sero Net heb fathau eraill o weithredu. Mae'r amcanestyniadau'n amcangyfrif y gall gwelliannau effeithlonrwydd ynni a datgarboneiddio’r cyflenwad trydan yn llawn gyda'i gilydd leihau allyriadau Blaenau Gwent o 59%.  Yn ogystal, mae'r amcanestyniad yn tybio y byddai twf economaidd a phoblogaeth parhaus yn cynyddu allyriadau gan 31% rhwng 2005 a 2050. Y brif ffordd o ddileu'r allyriadau eraill hyn yw trosi mathau o ddefnydd ynni nad ydynt ar hyn o bryd yn seiliedig ar drydan (gwresogi a thrafnidiaeth yn bennaf) i drydan er mwyn iddynt elwa o ddatgarboneiddio grid a rhedeg ar drydan di-garbon.

**Allyriadau Tiriogaethol Busnes Fel Arfer a Ragwelir ar gyfer Blaenau Gwent**




***Allyriadau yn ôl Sector***


Fel y dangosir yn y tabl a'r siartiau isod, y tair prif ffynhonnell allyriadau ym Mlaenau Gwent yw domestig (tai), diwydiant a thrafnidiaeth, pob un yn cyfrannu tua thraean o gyfanswm yr allyriadau. O gymharu â Chymru gyfan, tai yn hytrach na thrafnidiaeth yw'r ffynhonnell fwyaf o allyriadau, ac mae allyriadau diwydiannol yn ffurfio cyfran uwch o'r allyriadau (28% i 17%).


Mae'r cyfraddau gostyngiadau mewn allyriadau ar draws gwahanol sectorau ym Mlaenau Gwent yn unol i raddau helaeth â chyfartaledd Cymru gyda dau eithriad arwyddocaol. Mae'r gostyngiadau mwyaf ym Mlaenau Gwent wedi bod yn y sector cyhoeddus, y sectorau domestig a masnachol, ac mae pob un ohonynt wedi lleihau eu hallyriadau tua -50%. Mewn cyferbyniad, allyriadau trafnidiaeth (-21%) sydd wedi gostwng leiaf (ac eithrio amaethyddiaeth a gwastraff lle mae allyriadau eisoes yn isel iawn). Mae allyriadau sy'n gysylltiedig â thrydan wedi gostwng -71% ar gyfartaledd, ac mae hyn yn gyson ar draws pob sector oherwydd datgarboneiddio grid. Mewn cyferbyniad, dim ond -22% y mae allyriadau sy'n gysylltiedig â nwy wedi gostwng ar gyfartaledd, gydag arbedion sylweddol yn y sector domestig (-44%) o welliannau effeithlonrwydd ynni cartref yn cael eu gwrthbwyso gan gynnydd sylweddol mewn allyriadau nwy o'r sectorau diwydiannol (52%) a masnachol (56%). Mae'n werth nodi hefyd bod hyn yn sefyllfa wahanol iawn i Gymru gyfan lle mae allyriadau masnachol (-38%) a diwydiannol (-39%) wedi gostwng ar gyfraddau tebyg i'r sectorau domestig a chyhoeddus.

Mae'r ffigurau hyn yn dangos mai'r heriau mwyaf o ran cyflawni Sero Net ym Mlaenau Gwent yw trosi gwresogi nwy (y mae ychydig dros 50% ohono yn ddomestig) a thrafnidiaeth i ddefnyddio trydan di-garbon. Bydd hyn yn gofyn am newid sylweddol ar lefel genedlaethol a gweithredu lleol sylweddol ym Mlaenau Gwent i ddarparu seilwaith fel pwyntiau gwefru a phympiau gwres, yn ogystal ag ymgysylltu â thrigolion a busnesau. Mae'r rhain yn cael eu harchwilio'n fanylach yn yr adran nesaf ar Fframwaith Sero Net 2050.

## Allyriadau Tiriogaethol Blaenau Gwent yn ôl Sector

| **Ffynhonnell Allyriadau** | **2005** | **2022** | **Cyfran o Gyfanswm yr Allyriadau yn 2022** | **Newid** | **% Newid** |
|---|---|---|---|---|---|
| Trydan Diwydiant | 64.5 | 19.6 | 7% | -44.9 | -70% |
| Nwy Diwydiant | 30.2 | 45.9 | 17% | 15.6 | 52% |
| Diwydiant 'Arall' | 20.3 | 11.4 | 4% | -8.9 | -44% |
| **Cyfanswm Diwydiant** | **115.0** | **76.9** | **28%** | **-38.1** | **-33%** |
| Trydan Masnachol | 25.1 | 7.0 | 3% | -18.1 | -72% |
| Nwy Masnachol | 5.6 | 8.7 | 3% | 3.1 | 56% |
| Masnachol 'Arall' | 1.2 | 1.0 | 0% | -0.2 | -14% |
| **Cyfanswm Masnachol** | **31.9** | **16.7** | **6%** | **-15.2** | **-48%** |
| Trydan Sector Cyhoeddus | 9.2 | 2.2 | 1% | -7.0 | -76% |
| Nwy Sector Cyhoeddus | 7.5 | 5.7 | 2% | -1.9 | -25% |
| Sector Cyhoeddus 'Arall' | 2.9 | 1.1 | 0% | -1.7 | -60% |
| **Cyfanswm Sector Cyhoeddus** | **19.6** | **9.0** | **3%** | **-10.6** | **-54%** |
| Trydan Domestig | 58.2 | 17.4 | 6% | -40.9 | -70% |
| Nwy Domestig | 120.3 | 66.9 | 24% | -53.4 | -44% |
| Domestig 'Arall' | 10.0 | 7.9 | 3% | -2.2 | -22% |
| **Cyfanswm Domestig** | **188.6** | **92.2** | **34%** | **-96.4** | **-51%** |
| Trafnidiaeth Ffyrdd (Ffyrdd A) | 50.6 | 40.7 | 15% | -9.9 | -20% |
| Trafnidiaeth Ffyrdd (Isffyrdd) | 46.2 | 36.4 | 13% | -9.9 | -21% |
| Trafnidiaeth 'Arall' | 3.0 | 1.8 | 1% | -1.2 | -40% |
| **Cyfanswm Trafnidiaeth** | **99.8** | **78.8** | **29%** | **-21.0** | **-21%** |
| Trydan Amaethyddiaeth | 0.5 | 0.2 | 0% | -0.3 | -60% |
| Amaethyddiaeth 'Arall' | 0.4 | 0.5 | 0% | 0.1 | 28% |
| **Cyfanswm Amaethyddiaeth** | **0.9** | **0.7** | 0% | **-0.2** | **-21%** |
| Gwastraff 'Arall' | 0.1 | 0.1 | 0% | 0.0 | -15% |
| **Cyfanswm Gwastraff** | **0.1** | **0.1** | 0% | **0.0** | **-15%** |
| **Prif Gyfanswm** | **456.0** | **274.5** | **100%** | **-181.5** | **-40%** |


Allyriadau Blaenau Gwent
Masnachol
Amaethyddiaeth
Domestig
Diwydiant
Sector Cyhoeddus
Trafnidiaeth
Gwastraff
Tunnell CO2e
500
400
300
200
100
0
2005
2010
2015
2020


Cymhariaeth Ffynonellau Allyriadau Blaenau Gwent a Chymru
Emissions Sources
Sector Cyhoeddus
Trafnidiaeth
Gwastraff
Diwydiant
Domestig
Masnachol
Amaethyddiaeth
Ardal
Wales
4%
36%
17%
30%
10%
4%
Blaenau Gwent
3%
29%
28%
34%
6%
0%
20%
40%
60%
80%
100%
Allyriadau

**Fframwaith Sero Net 2050**

Mabwysiadwyd ein Fframwaith Sero Net 2050 yn 2024 ac mae'n cwmpasu'r allyriadau tiriogaethol ar gyfer Blaenau Gwent yn ei chyfanrwydd. Nid yw Fframwaith 2050 yn ceisio cwmpasu'r ystod o gamau gweithredu sydd eu hangen i gyrraedd Sero Net yn yr un lefel o fanylder â'n Cynllun Datgarboneiddio 2030. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith fod llawer o allyriadau tiriogaethol Blaenau Gwent y tu allan i'n rheolaeth uniongyrchol fel cyngor, ac mae'r ystod o newidiadau sydd eu hangen yn llawer ehangach. Yn hytrach, mae'r fframwaith yn darparu trosolwg lefel uchel o'r newidiadau sydd eu hangen i gyflawni Sero Net ar gyfer Blaenau Gwent yn ei chyfanrwydd, gan ddarparu dealltwriaeth gyffredin o'r hyn y mae angen i ni, sefydliadau partner a thrigolion ei wneud i barhau a chyflymu camau tuag at Sero Net 2050. Gwnaethom gymryd yr awenau wrth ddatblygu'r trosolwg hwn oherwydd ein rôl creu lleoedd a'r atebolrwydd democrataidd y mae'r cyngor yn ei ddarparu.

***Beth mae'r Fframwaith yn ei Gwmpasu***

Mae'r Fframwaith yn cwmpasu'r holl allyriadau tiriogaethol ar gyfer Blaenau Gwent; mae hyn yn golygu'r holl garbon a allyrrir ym Mlaenau Gwent (o drafnidiaeth, tai, busnesau ac ati). Mae Sero Net 2050 yn ymwneud ag allyriadau tiriogaethol sy'n seiliedig ar gynhyrchiant, ac mae'r rhain yn cynnwys yr holl allyriadau carbon (i) a ryddheir yn uniongyrchol ym Mlaenau Gwent a (ii) a ryddheir i gynhyrchu ynni a ddefnyddir ym Mlaenau Gwent. Nid yw'n cynnwys allyriadau tiriogaethol sy'n seiliedig ar ddefnydd, sef yr allyriadau sy'n gysylltiedig â gwneud cynhyrchion mewn mannau eraill, sydd wedyn yn cael eu defnyddio ym Mlaenau Gwent. Mae allyriadau sy'n seiliedig ar ddefnydd yn amrywio'n llai o lawer rhwng un ardal a'r llall nag allyriadau sy'n seiliedig ar gynhyrchiant, sy'n adlewyrchu'r cwmpas llawer mwy cyfyngedig i ddylanwadu arnynt ar lefel leol.

Mae'r Fframwaith wedi'i strwythuro o amgylch pedair thema: ynni, tai, natur a thrafnidiaeth. Mae'r themâu hyn yn seiliedig ar (i) ymgysylltu â'r cyhoedd, yn enwedig Cynulliad Hinsawdd Blaenau Gwent 2021, (ii) data, gan nodi ein prif ffynonellau allyriadau, yn ogystal â (iii) gweithio gyda'n partneriaid, yn enwedig drwy Grŵp Llywio Lliniaru Hinsawdd Blaenau Gwent. Mae'n ymwneud â sut y gall Blaenau Gwent chwarae ein rhan wrth fynd i'r afael â'r Argyfwng Hinsawdd a chyflawni targedau byd-eang ar gyfer cyfyngu cynhesu byd-eang i ymhell o dan 2$^{o}$c. Ond mae hefyd yn ymwneud â gwella ein mannau gwyrdd, cartrefi cynnes, ynni fforddiadwy a thrafnidiaeth hygyrch i bawb.

Nod y fframwaith yw pennu ein cyfeiriad drwy ddarparu disgrifiad clir o sut olwg sydd ar Sero Net 2050 i Flaenau Gwent a rhai o'r camau allweddol y mae angen i ni eu cymryd i'w gyrraedd. Fodd bynnag, mae cwmpas y newidiadau sydd eu hangen i gyrraedd Sero Net 2050, sy'n cynnwys ystod o gamau gweithredu sydd y tu allan i reolaeth leol, yn golygu nad yw'n realistig nac yn gymesur i drafod yr holl gamau gweithredu sy'n ofynnol mewn un ddogfen. Yn yr un modd, mae costio'r newidiadau sydd eu hangen i gyrraedd Sero Net 2050, a'r costau posibl o beidio â gwneud hynny, y tu hwnt i gwmpas y Fframwaith. Dull gweithredu'r Fframwaith yw disgrifio'r hyn sydd angen ei wneud o dan bob un o'r pedair thema i gyflawni Sero Net ym Mlaenau Gwent, sy'n dibynnu ar adnoddau ychwanegol sylweddol yn dod ar gael, yn hytrach na disgrifio'r hyn y gellir ei wneud i sicrhau'r gostyngiadau carbon mwyaf posibl o fewn yr adnoddau presennol. Yn y cyd-destun hwn mae'n werth nodi mai'r dewis arall i'r camau gweithredu a ddisgrifir yn y Fframwaith yw

gwneud dim.  Yn y cyfnod o 25 mlynedd hyd at 2050 bydd llawer o'r seilwaith a gwmpesir yn y fframwaith yn cyrraedd diwedd ei oes ddefnyddiol a bydd angen ei ddisodli, p'un a yw'n cael ei ddisodli gan ddewisiadau amgen di-garbon ai peidio.

**Beth mae Sero Net 2050 yn ei olygu i Flaenau Gwent**

***Ynni***

Bydd cyflawni system ynni Sero-Net ym Mlaenau Gwent yn newid mawr ac mae'r newidiadau eang sydd eu hangen yn glir.  Ar hyn o bryd mae tair prif ffynhonnell ynni yn cael eu defnyddio ym Mlaenau Gwent: nwy ar gyfer gwresogi (70% o'r galw am ynni ym Mlaenau Gwent), petrol/diesel ar gyfer trafnidiaeth (17%) a thrydan ar gyfer y rhan fwyaf o ddefnyddiau ynni eraill (13%).  O'r tri hyn, dim ond trydan all ddod yn ffynhonnell ynni ddi-garbon yn y dyfodol.  O ganlyniad, bydd cyflawni Sero Net yn gofyn am gefnu'n raddol ar nwy a phetrol/diesel a thrydaneiddio gwresogi a thrafnidiaeth (gweler y themâu isod am ragor o fanylion).  Bydd y rhan fwyaf o'r galw cynyddol hwn am drydan yn cael ei ddiwallu gan ynni adnewyddadwy.  Mae hyn yn golygu y bydd angen mwy o gapasiti grid ar Flaenau Gwent a mwy o gynhyrchiant ynni adnewyddadwy lleol (gwynt a solar yn bennaf) wedi'i leoli yn agos at y galw lleol er mwyn helpu i gydbwyso'r grid a lleihau costau i drigolion a busnesau.

***Tai***

Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl mai Pympiau Gwres fydd y dechnoleg ddi-garbon ar gyfer y rhan fwyaf o gartrefi ac adeiladau eraill (boed hynny mewn cartrefi unigol neu fel rhan o Rwydweithiau Gwresogi Ardal mwy).  Yn genedlaethol amcangyfrifir bod 90% o'r cartrefi a fydd mewn defnydd yn 2050 eisoes wedi'u hadeiladu nawr, felly bydd y rhan fwyaf o bympiau gwres yn cael eu gosod mewn tai presennol.  Fodd bynnag, bydd angen disodli'r rhan fwyaf o foeleri nwy presennol erbyn 2050 a bydd y rhan fwyaf o gartrefi'n newid perchnogaeth, gan ddarparu cyfleoedd i'r newidiadau hyn ddigwydd.  Mewn llawer o achosion, bydd gosod pympiau gwres yn gofyn am fesurau ôl-ffitio eraill (e.e. inswleiddio) i weithio'n effeithlon.  Mae gan Flaenau Gwent stoc dai hŷn ac felly llai ynni-effeithlon, gyda 50% o'r tai wedi'u hadeiladu cyn 1930 (cyfartaledd Cymru 36%).  Gallai'r mesurau ôl-ffitio hyn ddarparu manteision sylweddol o ran mynd i'r afael â materion hirsefydlog ynghylch effeithlonrwydd ynni a chysur cartrefi ym Mlaenau Gwent.  Er mai polisi cenedlaethol fydd yn gyrru'r trawsnewid, bydd angen gweithredu'n lleol i nodi ardaloedd sy'n addas ar gyfer rhwydweithiau gwresogi a chefnogi datblygiad capasiti ôl-ffitio lleol, a allai greu cyfleoedd a swyddi busnes lleol sylweddol.

***Natur***

Er bod yr arbedion carbon posibl erbyn 2050 o ddatrysiadau sy'n seiliedig ar natur yn llawer llai na'r themâu eraill, mae'r effeithiau cronnus parhaus y tu hwnt i 2050 yn arwyddocaol iawn.  Plannu coed ac adfer mawndiroedd sydd â'r capasiti amsugno carbon mwyaf, fodd bynnag, mae angen i adferiad natur ym Mlaenau Gwent gwmpasu ystod eang o gynefinoedd i fynd i'r afael â'r Argyfwng Natur.  Tynnodd y Cynulliad Hinsawdd sylw hefyd at

bwysigrwydd gwella'r amgylchedd naturiol ac adeiledig lleol i'r trawsnewidiad ehangach i Sero Net, wrth ddangos ymrwymiad i'r newidiadau mwy sydd eu hangen i gyrraedd Sero Net a gwella ansawdd bywyd lleol.

***Trafnidiaeth***

Mae'n debygol iawn ar y tueddiadau presennol y bydd y rhan fwyaf, os nad pob un, o'r ceir ym Mlaenau Gwent yn rhai batri trydan di-garbon erbyn 2050. Bydd heriau mawr o hyd i Flaenau Gwent o ran sicrhau bod gan bob preswylydd fynediad at wefru fforddiadwy, yn eu cartrefi neu'n agos atynt. Mae angen newidiadau ehangach mewn cynllunio trafnidiaeth i greu system drafnidiaeth ddi-garbon sy'n gwella'r ystod o opsiynau teithio cyfleus a fforddiadwy i breswylwyr. Bydd angen gwneud hyn mewn ffordd sy'n cyd-fynd â chyd-destun penodol Blaenau Gwent (topograffeg, hinsawdd, strydoedd cul) ac yn mynd i'r afael â'r heriau trafnidiaeth hirsefydlog. Mae'r rhain yn cynnwys lefelau isel o berchnogaeth ceir (nid yw 23% o aelwydydd ym Mlaenau Gwent yn berchen ar gar) ynghyd â lefelau uchel o ddibyniaeth ar geir (Blaenau Gwent sydd â'r gyfran uchaf o bobl sy'n teithio i'r gwaith mewn car yng Nghymru, ar 69%) a darparu trafnidiaeth gyhoeddus mewn ardal sydd â maint a dwysedd poblogaeth cymharol isel ar ôl tanfuddsoddiad hirdymor.

**Fforwm Dinasyddion ar Ddyfodol Teithio ym Mlaenau Gwent**

Trefnwyd y Fforwm Dinasyddion ar Ddyfodol Teithio ym Mlaenau Gwent gan Gyngor Blaenau Gwent ac fe'i hariannwyd gan Innovate UK, asiantaeth arloesi Llywodraeth y DU, fel rhan o'u rhaglen Byw Sero Net. Mae Grŵp Lliniaru Hinsawdd Partneriaeth Lles Lleol Blaenau Gwent wedi gwasanaethu fel grŵp cynghori i'r broses fforwm.

Roedd y fforwm yn cynnwys 21 o drigolion Blaenau Gwent a ddewiswyd i gynrychioli'r fwrdeistref drwy loteri ddethol o'r 164 o bobl a ymatebodd i lythyr recriwtio a anfonwyd at 6,500 o aelwydydd a ddewiswyd ar hap. Dewisodd y broses ddidoli bobl i fod yn gynrychioliadol o ran demograffeg, pryder am newid hinsawdd, nifer y ceir sydd gan aelwydydd a'r pellter teithio i wasanaethau (yn seiliedig ar Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru i fynediad at wasanaethau).

Gofynnwyd i'r Fforwm ateb y cwestiwn:

**Sut gall Blaenau Gwent ddod at ei gilydd i wneud teithio lleol yn decach, yn wyrddach ac yn well i bawb?**

Llywiwyd geiriad y cwestiwn hwn gan y pwyntiau canlynol:

- Roedd trefnwyr y fforwm yn teimlo bod newidiadau i'r ffordd rydyn ni'n teithio ym Mlaenau Gwent yn angenrheidiol ac yn anochel.
- Ni all unrhyw sefydliad unigol gyflawni'r holl newidiadau hyn, yn hytrach bydd angen i sefydliadau ac unigolion ddod at ei gilydd i wneud y newidiadau hyn.
- Rhoddwyd cyfle i aelodau'r fforwm ddiffinio tair elfen allweddol y newid hwn - tecach, gwyrddach a gwell - eu hunain yn ystod y broses.

- Penderfynwyd defnyddio'r gair teithio yn hytrach na thrafnidiaeth i adlewyrchu pwysigrwydd newidiadau sy'n seiliedig ar drosolwg o sut, ble a pham mae pobl yn teithio, yn hytrach nag ystyried gwahanol fathau o drafnidiaeth ar wahân.

Cynhaliwyd y fforwm dros dair sesiwn diwrnod llawn, wyneb yn wyneb, m mis Ionawr a Chwefror 2025, a rhoddodd gyfle i aelodau'r fforwm glywed gan siaradwyr arbenigol i ddysgu am faterion a'u trafod mewn grwpiau bach, gyda gwaith hwyluso gan yr elusen cyfranogiad cyhoeddus, Involve. Prif allbwn y fforwm oedd deg argymhelliad, a ddrafftiwyd gan aelodau'r fforwm, ynglŷn â sut y gellir gwella teithio lleol. Rhoddwyd briff i'r Fforwm y dylai ffocws yr argymhellion hyn fod ar gamau gweithredu:

- lle y gellir gwneud cynnydd sylweddol o fewn y pum mlynedd nesaf a
- gellir eu cyflawni'n bennaf ar lefel leol Blaenau Gwent, yn hytrach na gofyn am weithredu rhanbarthol neu genedlaethol sylweddol.

Y bwriad oedd y byddai'r argymhellion mwy uniongyrchol a manwl hyn yn adeiladu ar y ddau argymhelliad tymor hwy sy'n gysylltiedig â theithio a gynhyrchwyd gan Gynulliad Hinsawdd Blaenau Gwent yn 2021:

- Trafnidiaeth Integredig. Sefydlu system drafnidiaeth fforddiadwy, integredig ar ffyrdd a rheilffyrdd sy'n hygyrch ledled BG. System un tocyn sy'n cysylltu â chynlluniau bysiau, rheilffyrdd a beicio - cynhwysiant ar gyfer prynu tocynnau (digidol neu bapur). Hygyrch ar bob awr gyda diogelwch trwy oleuadau, teledu cylch cyfyng a gwaith cynnal a chadw.
- Cerdded a Beicio. Sefydlu a gwella seilwaith diogel, hawdd ei gynnal ar gyfer cerddwyr a beicwyr, at ddibenion hamdden neu waith, gyda mynediad i'r rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus. Gan gynnwys goleuadau a theledu cylch cyfyng a storfa ar gyfer beiciau.

Mae'r argymhellion (tudalen nesaf) yn alwad i weithredu gan Gyngor Blaenau Gwent a'u partneriaid. Maent yn cynnwys:

- prif argymhelliad o ran beth i'w wneud
- pam mae'n bwysig
- enghreifftiau o weithredoedd.

*(Nodyn: Mae rhifau'r argymhellion ar gyfer cyfeirio ac nid yw'n nodi trefn pwysigrwydd.)*

# Fforwm Dinasyddion Dyfodol Teithio ym Mlaenau Gwent




Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent County Borough Council

PARTNERIAETH LLESIANT LLEOL Blaenau Gwent LOCAL WELL-BEING PARTNERSHIP

Talk2gether For Community Wellbeing

involve

Mae aelodau'r Fforwm Dinasyddion hefyd wedi llunio a chytuno ar dair ar ddeg o egwyddorion tegwch i lywio sut mae'r cyngor a'n partneriaid yn bwrw ymlaen â'r argymhellion a'r camau gweithredu eraill i wella teithio ym Mlaenau Gwent. *(Nodyn: Unwaith eto, mae rhifau'r egwyddorion ar gyfer cyfeirio ac nid yw'n nodi trefn pwysigrwydd.)*

***Mae teithio teg ym Mlaenau Gwent yn golygu...***

(1) …bod **pawb yn gallu cael mynediad** at drafnidiaeth yn gyffredinol, a thrafnidiaeth gyhoeddus yn arbennig

(2) …peidio â lleihau allyriadau sy'n achosi newid hinsawdd mor gyflym â phosibl, os yw'n golygu y bydd rhai pobl yn colli allan ar allu cael **mynediad at drafnidiaeth**

(3) … diwallu **anghenion gwahanol** pobl

(4) … **peidio â gwahaniaethu**

(5) …**osgoi canlyniadau anfwriadol rhagweladwy** ac eithrio pobl trwy gamgymeriad, a lliniaru hyn pan mae'n digwydd

(6) …bod buddsoddi **mewn trafnidiaeth gyhoeddus a theithio llesol** yn flaenoriaeth ac yn haws i bawb (hyd yn oed os oes ganddynt gar)

(7) …**annog busnesau lleol** a sicrhau bod ganddynt gysylltiadau trafnidiaeth

(8) …**targedu cymorth** (nid gwasanaethau) lle mae'r angen mwyaf a/neu lle gellid cael yr effaith donnol fwyaf

(9) …**bod yn dryloyw** ynghylch sut a pham mae cefnogaeth wedi'i thargedu at wahanol grwpiau

(10)… nid dim ond edrych ar drafnidiaeth, ond hefyd **ar dechnolegau, pobl, a phrosesau fel galluogwyr trafnidiaeth**

(11) …**peidio â gofyn i bobl wneud mwy nag y gallant ei wneud**, rhaid iddo fod yn ddiogel

(12) …nid yw'n deg gofyn i bawb wneud newidiadau trwy'r amser, ond gallech ofyn i'r **rhan fwyaf o bobl wneud un newid bach**

(13) …**dylid annog pobl sy'n gallu fforddio gwneud hynny'n gyfforddus i gyfrannu mwy**. Fodd bynnag, nid yw'n deg cymryd yn ganiataol bod pobl o oedran gweithio yn gallu fforddio cyfrannu mwy


(14) … **cwmnïau yn gwneud eu rhan**

**Llesiant Di-garbon**

Un neges bwysig ar draws y pedair thema yw mai nod Sero Net 2050 yw cyflawni ein hamcanion llesiant ehangach ar gyfer Blaenau Gwent mewn ffordd sy'n ddi-garbon, yn hytrach na chael gwared ar garbon o'r system bresennol yn unig. Er enghraifft, ni ellir ystyried system drafnidiaeth ddi-garbon yn y dyfodol ar wahân i fynd i'r afael â'r angen ehangach am system drafnidiaeth integredig well ym Mlaenau Gwent. Yn yr un modd, gan y bydd Sero Net 2050 yn gofyn am newidiadau i gartrefi a bywydau pobl, bydd angen ymgysylltu â'r cyhoedd gan fynd i'r afael â sut y bydd y newidiadau hyn yn gwella ansawdd bywyd pobl yn ogystal â lleihau allyriadau carbon. Cysylltodd Cynulliad Hinsawdd Blaenau Gwent yr elfennau hyn drwy ei brif gwestiwn, 'sut allwn ni fynd i'r afael â newid hinsawdd ym Mlaenau Gwent mewn ffordd sy'n deg ac yn gwella safonau byw i bawb?' Nododd y Cynulliad yn glir fod trigolion yn gweld manteision i Sero Net ac yn disgwyl i'r manteision hyn, a'r costau, gael eu rhannu'n deg. Roedden nhw'n disgwyl gwelliannau i'w hamgylchedd lleol fel rhan o gyflawni Sero Net, fel mater o degwch ar sail yr ymdrech y bydden nhw'n ei wneud ar gyfer yr amgylchedd ehangach, ac fel prawf o hygrededd yn ein gallu i gyflawni ein nodau hinsawdd ehangach.

**Cynllun Ynni Ardal Leol (CYAL)**

Mae'r Cynllun Ynni Ardal Leol (CYAL) yn ddogfen allweddol o dan Fframwaith Sero Net 2050 gan fod y system ynni leol yn cynnwys 70% o gyfanswm allyriadau carbon Blaenau Gwent. Paratowyd y CYAL ar ein rhan ac mae'n darparu darlun sy'n seiliedig ar ddata o sut olwg sydd ar y system ynni leol bresennol ym Mlaenau Gwent. Roedd hefyd yn modelu pedwar senario gwahanol ar gyfer sut y gallai Blaenau Gwent gyflawni Sero Net 2050. Nid argymhellion na thargedau yw'r rhain ond maen nhw'n rhoi trosolwg cyffredinol o'r heriau i Flaenau Gwent o ran cyflawni system ynni Sero Net a syniad defnyddiol o raddfa a chyfeiriad y newidiadau sydd eu hangen.




Mae'r CYAL hefyd wedi darparu rhestr o gamau posibl dros y pum mlynedd nesaf i ni a'n partneriaid, o dan y chwe chynnig ynni yn y diagram uchod. Mae'r adrodd ar y camau hyn yn cael eu harwain ar lefel ranbarthol gan Brifddinas-Ranbarth Caerdydd a bydd ar gael yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Bydd y trawsnewidiad ynni ar gyfer Blaenau Gwent a nodir

yn y CYAL yn dibynnu ar gamau gweithredu rhanbarthol a chenedlaethol ehangach a newidiadau polisi.  Fodd bynnag, heb weithredu lleol sylweddol ym Mlaenau Gwent hefyd, ni fydd y newidiadau ehangach hyn yn arwain at system ynni Sero Net ym Mlaenau Gwent. Yn fwyaf nodedig, mae'r camau gweithredu lleol hyn yn cynnwys creu systemau gwres di-garbon (e.e. pympiau gwres) a seilwaith gwefru cerbydau.  Bydd angen cefnogaeth sylweddol ar y gweithredu lleol hwn hefyd gan na ellir cyflawni graddfa'r newid sy'n ofynnol yn lleol o fewn yr adnoddau presennol.

**Cynulliad Hinsawdd Blaenau Gwent**

Ym mis Mawrth 2021 daeth 44 o drigolion Blaenau Gwent ynghyd ar-lein i drafod y cwestiwn **'sut allwn ni fynd i'r afael â newid hinsawdd ym Mlaenau Gwent mewn ffordd sy'n deg ac yn gwella safonau byw i bawb?'**  Dewiswyd y 44 o Aelodau'r Cynulliad Hinsawdd ar hap i gynrychioli pobl ym Mlaenau Gwent (o ran oedran, rhywedd, ble maent yn byw, math o dai ac ati.)  Cyfarfu'r **Cynulliad Hinsawdd** am gyfanswm o 23 awr ar-lein, gan glywed tystiolaeth gan dros 20 o arbenigwyr (o academyddion i drigolion lleol), ac fe bleidleisiodd ar argymhellion a grëwyd ganddynt hwy eu hunain, y cafodd pump ohonynt y gefnogaeth gan 80% yr oedd ei hangen i ddod yn argymhellion swyddogol.

Trwy Grŵp Llywio Camau Lliniaru Blaenau Gwent datblygodd partneriaid set o gamau gweithredu arfaethedig y gallem eu cymryd mewn ymateb i'r Cynulliad Hinsawdd ar lefel Blaenau Gwent (gan gydnabod y bydd ar rai elfennau o argymhellion angen camau gweithredu ar raddfa ranbarthol neu genedlaethol).  Fe gytunom ni i arwain ar gyfer pedair o'r blaenoriaethau hyn.



# 6. Addasu i Effeithiau Newid Hinsawdd

Mae Sero Net 2030 a Sero Net 2050 ill dau’n ymwneud â chamau ***lliniaru effeithiau newid hinsawdd*** (lleihau allyriadau carbon). Y prif fath arall o weithredu ar newid hinsawdd yw ***addasu i effeithiau newid hinsawdd***, sy'n ymwneud â gweithredu i leihau effaith newid hinsawdd sydd eisoes yn digwydd/a fydd yn digwydd yn y dyfodol.

Erbyn canol y ganrif gallwn ddisgwyl:

- gaeafau cynhesach a gwlypach
- hafau poethach a sychach
- mwy o amrywioldeb o ran tywydd eithafol
- mwy o amlygiad i beryglon sy'n gysylltiedig â'r tywydd
- cynnydd ym mynychder a dwyster tanau gwyllt.

Bydd angen addasu i effeithiau newid hinsawdd mewn nifer o feysydd gan gynnwys: yr economi leol, yr amgylchedd naturiol, seilwaith a chymunedau. Ar hyn o bryd, mae camau gweithredu’n cael eu cymryd gan wahanol feysydd gwasanaeth, ond nid oes gennym syniad clir ar lefel gorfforaethol beth yw cyfanswm y gweithgarwch, o unrhyw fylchau yn y gweithgarwch hwnnw na beth ddylai ein blaenoriaethau fod. Dros y 12 mis nesaf rydym yn bwriadu datblygu'r ddealltwriaeth gorfforaethol hon am addasu yn sylweddol.

Fel gyda lliniaru effeithiau newid hinsawdd, mae addasu’n cynnwys elfennau sefydliadol a thiriogaethol. Bydd ein ffocws cychwynnol ar addasu sefydliadol i effeithiau newid hinsawdd, lle mae gennym y lefel fwyaf o ddylanwad ar y risgiau. Bydd ein dull addasu’n seiliedig ar weithio trwy ein systemau rheoli risg presennol, ar y sail bod y rhan fwyaf o effeithiau'r argyfwng hinsawdd yn cynyddu’r tebygolrwydd y bydd risgiau presennol yn cael eu gwireddu a/neu ddifrifoldeb y risgiau hynny, sydd eisoes yn cael eu rheoli drwy'r systemau hyn, yn hytrach na chreu risgiau cwbl newydd. Gan hynny, mae'n gwneud synnwyr integreiddio’r broses o addasu i effeithiau newid hinsawdd o fewn trefniadau rheoli risg presennol, yn hytrach na chreu system ar wahân sy'n mynd i'r afael â llawer o'r un risgiau. Blaenoriaeth gynnar arall ar gyfer y gwaith corfforaethol hwn fydd creu cyd-ddealltwriaeth am beth yw effeithiau tebygol newid hinsawdd i Flaenau Gwent a all oleuo dull cyson ar draws y cyngor.

# 7. Sylwadau i Gloi

Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r cynnydd rydyn ni wedi'i wneud tuag at Sero Net 2030, gan gynnwys gostyngiad o 5% yn ein hallyriadau uniongyrchol y llynedd a gostyngiad cronnol o 23% dros y pum mlynedd diwethaf o'n llinell sylfaen yn 2019/20. Roedd yr adroddiad blynyddol eleni yn fyrrach gan y byddwn yn cynnal Adolygiad Pwynt Canol o'n Cynllun Datgarboneiddio 2020-2030, a fydd yn cynnwys golwg fanylach ar ein cynnydd tuag at Sero Net 2030 hyd yn hyn. Rydyn ni wedi adrodd ar ein hallyriadau tiriogaethol am y tro cyntaf ac yn ystod y flwyddyn ddiwethaf cynhaliwyd Fforwm Dinasyddion ar Ddyfodol Teithio ym Mlaenau Gwent a fydd yn llywio ein gwaith o dan thema trafnidiaeth Fframwaith Sero Net 2050.